***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3362

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

## RHAN 6

### Cyrff Perthnasol Penodol

**Byrddau draenio mewnol**

**19.** Rhaid i fwrdd draenio mewnol godi ar gyfrif refeniw swm sy'n hafal i'r taliadau a'r cyfraniadau sy'n daladwy'n statudol am y flwyddyn honno o dan drefniant a gyfrifir fel cynllun pensiwn â buddion wedi eu diffinio neu fel buddion eraill hirdymor i gyflogeion (fel y'u diffiniwyd yn unol ag arferion priodol mewn perthynas â chyfrifon).

**Cyd-bwyllgorau etc.**

**20.**—(1) Rhaid i unrhyw gyd-bwyllgor, awdurdod tân ac achub neu awdurdod Parc Cenedlaethol y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt adneuo gyda phob awdurdod cyfansoddol—

(a) pan fo'r pwyllgor yn gorff perthnasol llai, o fewn y cyfnod o 14 diwrnod a bennir yn rheoliad 18, gopi o adroddiad yr archwilydd a'r datganiadau cyfrifyddu; a

(b) fel arall, wrth roi hysbysiad o dan reoliad 13, gopi o adroddiad yr archwilydd a'r datganiad o gyfrifon.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "awdurdod cyfansoddol" ("*constituent authority*") yw unrhyw gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned sydd â hawl am y tro i benodi aelodau o'r pwyllgor neu'r awdurdod dan sylw ac mewn perthynas ag awdurdod Parc Cenedlaethol, mae'n cynnwys Gweinidogion Cymru.